CYNGOR CYMUNED BRYNGWRAN
COMMUNITY COUNCIL

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS IAU
10 Mai 2018
AM 7.30 O'R GLOCH YN YSGOL BRYNGWRAN

YN BRESENNOL: Cyng I Roberts, G Parry, R G Parry, S Parry, S Williams, C Ll Thomas, E Huws, C Hughes, I Rowlands.	
YMDDIHEURIADAU: Cyng Cyng D Rees (Cyngor Sir), Cyng K Humphreys	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng I Roberts.
2	**DATGAN DIDDORDEB** - Mynwent Salem: Cyng I Roberts. Cyfraniad Philfest: Cyng G Parry, I Rowlands, E Huws. Trip yr Ysgol: Cyng E Huws, G Parry
3	**DERBYN COFNODION** Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod 12.04.18. Cyng S Parry yn cynnig a Cyng G Parry yn eilio
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**Maes chwarae** - Gweler cofnodion y cyfarfod diwethaf: Offer - maes chwarae. - Mae'r Cyngor wedi cael cynnig offer maes chwarae hen ysgol Thomas Ellis. Dechreuwyd gyda cyfarfod ar y maes chwarae gyda'r Prifathrawes a Pwyllgor yr offer (plant yr Ysgol). Mae 6 eitem ar gael. Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd i osod 3 ar y maes chwarae a tri ar iard yr ysgol ar y tarmac. Bydd yr ysgol yn gyfrifol am y tri ar y tarmac. Bydd y plant yn mesur ac yn dweud ble i rhoi yr offer. Mae Cyng K Humphreys a G Parry am trefnu cael prisiau i gwneud y gwaith draenio ar y cae chwarae. Mae'r Clerc yn chwilio am grant at y costau draenio y cae.
4.2	**Lon Salem** - Mae angen gwaith paentio - cytunwyd i gadael y mater "ar y bwrdd"
4.3	**Lôn y Fynwent** - Mae'r Clerc wedi derbyn pris gan Hogans (llenwi y tyllau) £15423.22. Nid yw y Cyngor yn gallu fforddio talu swm mor uchel. Bydd y Clerc yn cysylltu a R G Hire unwaith eto am pris.
4.4	**Ramp o mynwent yr Eglwys i'r fynwent cyhoeddus.** - Mae Cyng I Rowlands wedi cael pris am stepiau £25 a canllaw £150. Cytunwyd i symud ymlaen - mewn llaw
4.5	**Offer ychwanegol y maes chwarae** - gweler 4.1
5	**ADRODDIAD y CADEIRYDD** Cynigodd y Cadeirydd diolch i pawb am eu gwaith ar y Cyngor.
	Llofnod…….Cadeirydd 14.06.18

6	**GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON**
	Cynllunio
6.1	16C68M Cais llawn ar gyfer codi modurdy yn yr Olwyn Ddwr, Bryngwran - dim sylwadau
7	**GOHEBIAETH YCHWANEGOL**
7.1	Hogans - gweler 4.3
8	**MATERION ERAILL**
8.1	Mynwent Salem - Trafodwyd cwyn am cyflwr Mynwent Salem - angen adeiladu wal, twtio ac ymlaen. Bydd y Clerc yn cysylltu a Parch Euros Jones i drefnu cyfarfod ar y safle gyda Cyng I Roberts ac un arall (Cyng R G Parry neu I Rowlands)
8.2	Trip yr Ysgol - Cytunwyd i gynnig £200 at trip yr Ysgol
8.3	Bydd y Clerc yn mynd i'r ysbyty mis nesaf am llaw-driniaeth a bydd angen amser i wella. Cytunwyd i peidio cynnal cyarfod ym mis Gorffennaf (yn lle mis Awst). Cynigodd Cyng C Hughes cymeryd nodiadau o cyfarfod os bydd angen
9	**MATERION ARIANNOL**
	Dim
10	**Materion ar gyfer y rhaglen nesaf**
10.1	Diwrnod Hwyl
10.2	Bin - cae chwarae
10.3	"Mirror" Engedi
10.4	Philfest
	Llofnod…….Cadeirydd 14.06.18